**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2025, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Berwyn Parry Jones, Philip Roberts, Colin Swatridge, Ann Lawton, Beca Brown, Cemlyn Jones, Richard Robinson, Hefin Jones

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Alan Pritchard

**Hefyd yn Bresennol:** Lowri Gwyn (Cyfieithydd), Catrin Wager (Partneriaeth Dyffryn Peris ar gyfer eitem 1506 yn unig)

**CLERC:** Meirion Jones

**1501. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**1502 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fela nodwyd uchod

**1503. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1504. I dderbyn cofnodion cyfarfod 19 Awst 2025**

Derbyniwyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1505. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim – materion ar agenda heno

**1506. I dderbyn diweddariad oddiwrth Catrin Wager (Swyddog Datblygu Partneriaeth Dyffryn Peris) ar ddatblygiad y bartneriaeth**

Croesawyd Ms Catrin Wager. Adroddwyd fel a ganlyn

Diolch am y cyfle i gwrdd a'r cyngor, a diolch am y cyfle i ymgymryd a'r swydd gyffrous yma! Dwi'n awyddus i gwrdd a chydweithio hefo cyn gymaint o bobl a Bron i fis yn y rol i mi bellach, ac roedd y bythefnos gyntaf yn ddistaw gan eu bod yn y gwyliau haf a aawl un i ffwrdd - ond ma'r bythefnos ers hynny wedi gwneud i fyny am unrhyw ddistawrwydd!

Y flaenoriaeth ydy trio **sefydlu endid cyfreithiol**. Cymdeithas Budd Cymunedol ydy'r model sydd wedi cael ei ffafrio mewn trafodaethau cyn i mi gychwyn, a dwi wedi bod yn paratoi gwaith papur i'r perwyl hynny. Mae na gais (llwyddiannus)

wedi mynd mewn i Cwmpas i ariannu cofrestru'r endid, ac ma na gais wedi mynd mewn i Co-Ops UK am gefnogaeth busnes. Bydd y grwp llywio yn cwrdd ar yr 2il o Hydref a'r gobaith ydi symud ymlaen i gofrestru, ddylai gymryd rhyw 15 diwrnod.

Y tu allan i hyn, dwi wedi bod yn cefnogi Menter Fachwen i gymrud meddiant o hen **Ysgol Cwm y Glo** gan Gyngor Gwynedd. Dwi wedi addasu hen gynllun busnes iddynt, a'i ddiweddaru i greu prosiect sydd i weld yn cyd-fynd a blaenoriaethau cyllidwyr ar y funud. Rwy'n ymwybodol fod hwn yn fater sy'n bwysig i'r gymuned felly gobeithio y gall hyn symud yn ei flaen cgaph.

Rwyf hefyd wedi bod yn trafod gyda **Ynni Padarn Peris**. Mae nhw'n awyddus i ddatblygu prosiect tebyg i 'Heludro' yn Nyffryn Ogwen, ble mae Ynni Ogwen yn ariannu gosod paneli solar ar adeiladau cymunedol. Byddaf yn ceisio cefnogi drwy adnabod adeiladau addas, ac dwi'n awyddus i glywed gan unrhyw gorff neu sefydliad sydd hefo adeilad all elwa o welliannau ynni effeithlonrwydd/cynhyrchu trydan.

Yn olaf, eisiau ategu mai prosiect cymunedol ydy hwn, ac mod yn awyddus i weithio hefo'r cyngor, cynghorwyr ac unrhyw grwpiau, neu brosiectau yn y gymuned. Dwi'n awyddus i drio cefnogi unrhyw waith neu brosiect cymunedol, a'r gobaith ydy y gallai fod yn adnodd gweithredol i gefnogi'r holl waith arbennig sy'n digwydd ar draws y dyffryn.

Penderfynwyd:

a) Derbyn a diolch yn fawr am y diweddariad
b) Etholwyd y Cynghorydd Hefin Jones o Gyngor Cymuned Llanrug ar y grŵp llywio

**1507. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1508. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fel a ganlyn

Cynhaliwyd cyfarfod o is-bwyllgor y Fynwent ar lein ,26.8.25
Penderfynwyd paratoi datganiad am flodau ffug a'i tebyg yn y fynwent er mwyn ymgynghoriad ar y mater gyda'r cyhoedd.. Bydd y datganiad yn ymddangos ar wefan y Cyngor a thudalen Facebook y Cyngor hefyd.
Penderfynwyd hefyd i ymgynghori gyda'r ICCM ynglŷn â chymwysterau torrwr beddi.
Materion gwariant a phenderfynwyd: archebu arwyddion newyddion ,peintio a pharatoi safle parcio anabl, a gwario ar lwybrau yn y gofod newydd i gael ei chynllunio ar gyfer y flwyddyn gyllidol nesaf.
Hefyd:

Asesiad risg blynyddol yn y fynwent oedd wedi ei ohirio oherwydd y tywydd wedi ei ail-drefnu ar gyfer 22.9.25.
Angen sylw ar stêcs tu nol i rai cerrig beddi.
Ar nos Iau 9.9.25. bu i aelodau'r yr is-bwyllgor a'r clerc cyfarfod gyda'r Parch Naomi Starkey, Arweinydd Gweinidogaeth Bro Eryri i drafod dyfodol adeilad a mynwent eglwys St. Mihangel. Penderfynwyd cyfarfod eto yn y dyfodol agos.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1509. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor eu bod wedi cyfarfod 1r 15fed o Fedi. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

- Arwyddion yn dangos rheolau a materion diogelwch y caeau chwarae wedi archebu
- Rota wedi drefnu ar gyfer archwiliadau y Gampfa
- Archebu mwy o oleuadau ar gyfer coed Nadolig Llanrug A Cwm y Glo a cal rhai lliw.
- Clwb Ieuenctid am wneud poster yn hysbysu'r gystadleuaeth Nadolig
- Dyddiadau hyfforddiant diffibriliwr wedi cadarnhau 9fed o Rhagfyr am 2:00yh ac 10fed o Rhagfyr 2025 am 6:30yh y ddau yn Y Sefydliad Coffa
- Clwb Ieuenctid wedi ail agor a cafwyd cyfarfod gyda Cadeirydd y cyngor, cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau, ynghyd a'r clerc gyda Rheolwr y Gwasanaeth i drafod beth oedd wedi gweithio yn dda llynedd a beth gellir gwella arno. Rhain yn gyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn flynyddol neu fel fydd y galw fel bo angen. Nodwyd fod y cyngor yn cysylltu gyda'r staff i gyd, dim un unigolyn ac fod trefniadau ar y gweill i gyd weithio yn agosach gyda'r clwb. Nodwyd fod croeso i bob aelod o'r cyngor alw heibio i weld beth sydd yn mynd ymlaen yn y clwb.
- Coed oedd yn tarfu oddi ar dir y cyngor yn Cwm y Glo i'r ffordd fawr a'r coed adnabuwyd yn ddiffygiol o'r asesiad risg wedi tocio.
- Trafodwyd y ffaith fod personau wedi gweld yn mynd a'r coed oddi yna ond penderfynwyd peidio gwneud dim ar hyn o bryd ond cadw llygaid ar y sefyllfa.
- Gohirio trafodaeth ar lain diroedd ar hyn o bryd

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1510. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ar 2 o fedi 2025. Ymysg y materion a drafodwyd

- Fod y Cynghorwyr Ann Lawton a Rhys Parry yn parhau i edrych ar gynnwys ein gwefan

- Wedi derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol ar gyfer 2024/2025 a doedd dim byd i ddod i sylw'r cyngor a'r archwiliwr yn hapus gyda trefniadau ariannol.
- Parhau i ddisgwyl am yr archwiliwr allanol
- Adolygwyd y gyllideb ond penderfynwyd peidio addasu ar hyn o bryd

**1511. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0126/23/CR
**Math o Gais:** Caniatad Adeilad Rhestredig
**Bwriad:** Trosi adeilad allanol yn anecs a gosod llechi solar ar y to / Convert outbuilding into annexe and install solar slates on roof
**Ymgeisydd:** Mrs Berta Rosen
**Cyfeiriad:** 3, Plas Pant Afon, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RA
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad ond gofyn am amod ei fod ddim yn cael ei drosglwyddo if od yn eiddo sydd yn dd-breswyl ond wedi ddodrefnu yn sylweddol ac fod yn cadw at yr amodau a amlinellir.

b) **Rhif y Cais:** C25/0514/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel garej presennol a chodi estyniad i'r eiddo presennol. Demolition of existing garage and erection of extension to existing property.
**Ymgeisydd:** Miss Leah Cheeseman
**Asiant:** Alan Owen (A.L.I Building Design Ltd)
**Cyfeiriad:** Tan Hafodlas, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253428.9999999999, 361852.00000000047
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:00

Arwyddwyd:

Cadeurydd: Dyddiad: